Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Public Services Board

2pm, Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024
Cyfarfod drwy Teams

COFNODION	
Presennol	
Enw	**Sefydliad**
Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Andrew Cornish	Coleg Sir Gâr
Mydrian Harries	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Huwel Manley	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Dawn Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gwilym Dyfri Jones	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Ross Evans	Heddlu Dyfed Powys
Andrew Charles	Llywodraeth Cymru

Yn bresennol	
Enw	**Sefydliad**
Rachel Willis	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amy Richmond Jones	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Llinos Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau	
Enw	**Trefniadaeth**
Christine Harley	Gwasanaeth Prawf
Ardiana Gjini	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Michael Thomas	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Phil Kloer	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
Jason Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carys Morgans	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
Linda Jones	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
Kate Harrop	Cyngor Sir Caerfyrddin
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin

Croesawodd y Cynghorydd Darren Price, y Cadeirydd, bawb i'r cyfarfod.

2. Asesiad Risg Newid Hinsawdd

Croesawyd Rachel Willis i'r cyfarfod i gyflwyno'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd.

Mae Adran 38 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried Asesiad Risg Newid Hinsawdd diweddaraf y DU wrth baratoi eu Hasesiadau Llesiant.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi paratoi fframwaith er mwyn helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ystyried y risgiau hynny.

Esboniwyd fod Asesiad Risg ar sail y Deyrnas Unedig wedi ei gwblhau a bod 61 o risgiau wedi'u hadnabod, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol, asedau ac isadeiledd.

Bydd defnyddio'r fframwaith, gyda'r llyfr gwaith cysylltiedig, yn helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i:

- Ddefnyddio Crynodeb i Gymru y CCRA3 i ystyried sut a ble mae dimensiynau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn debygol yn debygol o gael eu heffeithio gan yr hinsawdd
- Ystyried y cyd-destun polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer y gwaith hwn a'r cysylltiadau rhyngddynt
- Mabwysiadu dull cydweithredol gydag amrywiaeth a bartneriaid
- Darparu sail tystiolaeth ar gyfer is-set o feysydd risg ar gyfer gweithredu pellach a ddylai lywio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Amcanion Llesiant
- Nodi camau angenrheidiol y mae'n rhaid i'r Bwrdd eu cymryd i gyflymu camau gweithredu cyfunol mewn ymateb i risg hinsawdd yn y presennol a'r dyfodol.

Nodwyd fod data wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Lles a bod newid hinsawdd a llifogydd yn feysydd penodol.

Amlinellodd Rachel y camau sydd angen eu hystyried wrth gynllunio y camau nesaf, sef

- Sefydlu llywodraethiant
- Penodi arweinydd prosiect
- Creu tîm
- Mapio rhanddeiliaid
- Cyfleu'r neges
- Ystyried mesurau ymateb cyfredol a'u heffeithiolrwydd
- Gwerthuso'r cynllun
- Methodoleg y cynllun

Nodwyd y pwysigrwydd o edrych ar ystod eang o faterion wrth osod grŵp Tasg a Gorffen i fyny i lywio'r gwaith ac i ystyried pa beryglon ac ymatebion y gall y Bwrdd weithio arnynt ac ychwanegu gwerth i waith sydd eisoes yn digwydd yn ein sir.

Cydnabuwyd bwysigrwydd y gwaith hwn a'r ddolen grêt sydd rhwng amddifadedd ac anghyfartaleddau iechyd. Yn yr un modd, nodwyd risgiau at y dyfodol os y bydd newidiadau o ran defnydd sir yn sgil y Cynllun Ffermio Cynaliadwy e.e. mewn ardaloedd megis mynydd Llanllwni a'r Mynydd Du.

Cynigiodd Andrew Cornish ac Andrew Charles y dylid cael trafodaeth fanylach er mwyn adnabod y risgiau uchaf i'w blaenoriaethu ac i edrych ar effaith posib newid hinsawdd wrth wireddu'r Amcanion Lles.

GWEITHREDU	
Trefnu gweithdy penodol i'r BGC er mwyn edrych ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd ac i gynllunio'r camau nesaf.	Tîm Cefnogi'r BGC
I'r Aelodau i enwebu swyddogion priodol o'r sefydliadau i fod yn rhan o'r gwaith Asesiad Risg Newid Hinsawdd at y dyfodol.	Aelodau'r BGC Tîm Cefnogi'r BGC

3. Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cynyddu cydweithio ar seilwaith gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus

Cylchredwyd copi o log gweithredu y Grŵp ymlaen llaw.

Cafwyd diweddariad am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Gadeirydd y grŵp, Mydrian Harries.

Nodwyd fod y cyfarfod cyntaf wedi ei gynnal a bod amcanion clir i'r gwaith, a fydd yn ffocysu ar seilwaith gwefru sefydliadol, gan fod pwyntiau cyhoeddus mewn lle ac eisoes ar gael. Mae templed mapio wedi ei gylchredeg i aelodau, er mwyn casglu tystiolaeth o'r hyn sydd eisoes mewn lle. Bydd yna her o ran cerbydau mwy o faint megis cerbydau diffodd tân a chasglwyr sbwriel ac ailgylchu.

Nododd Andrew Cornish y pwysigrwydd o gael manylion technegol am bŵer gwefru yr holl safleoedd.

Gofynnwyd i aelodau i enwebu swyddogion ychwanegol i fod yn aelodau o'r grŵp yma.

Cytunwyd i wneud gwaith ymchwil i gyllid Arbedion Ynni o fewn Llywodraeth Cymru.

GWEITHREDU	
I'r Aelodau i enwebu swyddogion priodol o'r sefydliadau i fod yn rhan o'r gwaith tasg a gorffen seilwaith gwefru at y dyfodol.	Aelodau'r BGC Tîm Cefnogi'r BGC
Gwirio a ydy'r templed yn ddigon manwl o ran pŵer y gwefrwyr sydd ym mhob lleoliad.	Tîm Cefnogi'r BGC
Gwneud gwaith ymchwil i gyllid Arbedion Ynni o ran isadeiledd gwefru EV o fewn Llywodraeth Cymru.	Tîm Cefnogi'r BGC

4. Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Cynllunio ar gyfer gweithlu'r dyfodol drwy gydweithio i hyrwyddo cyfleoedd swyddi a gyrfaoedd yn y sector cyhoeddus.

Cylchredwyd copi o log gweithredu y Grŵp ymlaen llaw.

Cafwyd diweddariad am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan Gadeirydd y grŵp, Gwyneth Ayers.

Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y grŵp ar 26 Ebrill a bod cysylltiadau wedi ei gwneud gyda'r Grŵp Sector Gyhoeddus o fewn y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol.

5. Diweddariad gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen

Nodi a gweithredu cyfleoedd i staff sefydliadau PSB wneud pob cyfrif cyswllt (MECC) gyda gwell cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau cymorth.

Adeiladu ar wasanaethau cynghori a chefnogaeth i breswylwyr drwy Hwb y Cyngor, drwy ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu ar draws sefydliadau BGC.

Cylchredwyd copi o log gweithredu y Grŵp ymlaen llaw.

Mae'r grŵp wedi edrych ar hanfodion gwaith cenedlaethol Gwneud i bob cyswllt gyfrif, sy'n cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oherwydd lefel manylder y fframwaith, mae'r grŵp yn awgrymu edrych ar hanfodion penodol y gellir eu mabwysiadu yn lleol.

Mae hyfforddiant Lefel 1 MECC mewn lle a cytunwyd i ystyried lle gellir cynnwys / hyrwyddo yr hyfforddiant yma i staff sydd â chyswllt llinell flaen o fewn ein sefydliadau.

Mae'r grŵp yn parhau i fapio'r gwasanaethau lleol sydd ar gael ac yn ystyried sut y gellir datblygu presenoldeb ar y we i hyrwyddo'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael.

6. Cofnodion a Materion yn Codi

Cofnodion 19 Ionawr 2024
Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir a gwir.

Log Gweithredu
Darparwyd diweddariadau ar gamau gweithredu blaenorol.

7. Unrhyw fusnes arall

Academi Cenedlaethau'r Dyfodol

Cafwyd drafodaeth am y cynnig i noddi lle i berson ifanc o Sir Gâr ar Academi Cenedlaethau'r Dyfodol.

Esboniodd Andrew Cornish ei fod yn trafod cyfleoedd cyllido posib gyda chydweithwyr o fewn y Coleg, a fyddai'n medru galluogi'r BGC i gefnogi person ifanc o'r sir.

GWEITHRED	
Andrew Cornish i drafod cyfleoedd ariannu lleol o fewn Coleg Sir Gâr ar gyfer yr Academi Cenedlaethau'r Dyfodol a rhoi adborth i Gwyneth Ayers.	Andrew Cornish

8. Cyfarfodydd y dyfodol

- 14 Mai 2024 - Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Caerfyrddin
- 2 Gorffennaf 2024 – Cyfarfod dros Teams